Crynodeb o'r Cymorth Arbenigol i Allforio sydd ar gael i Fusnesau Cymru yn y Sector Bwyd a Diod

Diwygiwyd Ionawr 2010

At ba fusnesau bwyd a diod o Gymru y bydd y Cymorth Arbenigol i Allforio yn apelio?

Allforwyr Newydd

- Mae'n fwy na thebyg eich bod chi'n fusnes sydd eisoes yn cael llwyddiant wrth gyflenwi bwydydd neu ddiodydd â brand neu â label siop neilltuol i'r fasnach fanwerthu neu wasanaethau bwyd ym Mhrydain.
- Gallech gynhyrchu mwy i gwrdd â'r galw ychwanegol o dramor.
- Rydych yn cyrraedd y lefel briodol o ran safonau diogelwch bwyd ac ansawdd bwyd yn y DU.
- Rydych yn barod i addasu'r labeli/defnydd pecynnu a buddsoddi i hybu'r ymdrech i werthu dramor.

Allforwyr Profiadol

- Rydych yn dymuno ehangu'ch gwerthiant mewn marchnad ryngwladol yr ydych wedi cael eich traed tano ynddi, neu werthu mwy, neu addasu/newid eich trefniadau presennol rhwng mewnforwr/dosbarthwr/manwerthwr.
- Rydych yn dymuno ystyried neu chwilio am gyfleoedd newydd yn y farchnad ryngwladol.

A ydi'ch Busnes yn Gymwys?

- Rhaid i chi fod yn fusnes gwneuthur neu brosesu bwyd a diod sydd â'ch canolfan yng Nghymru. Rhaid eich bod yn cynhyrchu prif gynhwysion neu gynnyrch i'w bwyta/yfed gan bobl. Nid yw busnesau manwerthu yn gymwys.

Pa opsiynau sydd ar gael gan Busnes Rhyngwladol Cymru ar gyfer Cymorth Arbenigol i Allforio Bwyd a Diod?

Parhad dros y dudalen .....

.....Parhad

Mae'r cynlluniau Cymorth Arbenigol sydd ar gael yn cael eu rhannu'n dair prif raglen:



Mae'r tair prif raglen uchod ar gael trwy Gymru gyfan ac i fusnesau bwyd bach a mawr, o dan y rheoliadau "de minimis". Yn ogystal, ceir y cymorth isod gan Busnes Rhyngwladol Cymru:

Grant Ymweliad Datblygu Busnes Dramor y Gronfa Fuddsoddi Sengl (SIF fach). (Ail-lansiwyd ym mis Hydref 2009)	Cymorth ar ffurf cyfraniad cyfatebol at gostau arddangos dramor a/neu gostau uniongyrchol hedfan yno a llety gwely a brecwast. Agored i fusnesau sydd â throsiant o dros £100K a rhaid gallu cyfiawnhau'r achos busnes yn dda. Caiff ceisiadau eu prosesu trwy broses SIF Adran yr Economi a Thrafnidiaeth.
Teithiau Masnach Sector-benodol ac Aml-Sector eraill Busnes Rhyngwladol Cymru	Dilynwch y ddolen isod i weld rhaglen lawn IBW o Sioeau Masnach: www.ibwales.com/international-trade/international-trade-events/ Mae Teithiau Masnach IBW ar gael i fusnesau bach a mawr.

Teithiau ac Ymweliadau â Chymru	O bryd i'w gilydd mae pobl sy'n gweithio dramor i Adran Masnach a Diwydiant y DU ac ymgynghorwyr sy'n gweithio ar gontract i IBW yn trefnu ymweliadau â Chymru, ac mae busnesau o Gymru'n cael gwahoddiad i gwrdd â nhw.

Pwy ddylwn i gysylltu â nhw i wneud cais am Gymorth IBW i Allforio?

I ddechrau, dylech gysylltu â Chynghorydd Masnach Ryngwladol IBW yn eich ardal chi i drafod unrhyw un o'r rhaglenni hyn gan IBW. Neu, i gael cyngor am allforio gan Arbenigwr Bwyd, gallwch gysylltu â'r bobl isod:

	Rob Forman (ar gyfer ITD, ITO ac Arddangosfeydd Masnach)	Ffôn: 02920 82 8853	E-bost: Rob.Forman@wales.gsi.gov.uk
	Sally-Anne Hawkins (Ar gyfer Arddangosfeydd/ Teithiau Masnach yn bennaf)	Ffôn: 02920 44 2627	E-bost: Sally-Anne.Hawkins@wales.gsi.gov.uk

Pwy fydd yn rhoi'r cymorth y mae ar fy musnes ei angen i allforio?

Cewch **gyngor ac arweiniad cyffredinol ar allforio** gan Gynghorydd lleol Masnach Ryngwladol IBW, neu Arbenigwyr Bwyd IBW uchod. Fel rheol, **rhoddir cyngor am raglenni neu brosiectau penodol IBW** ar ran IBW gan rwydwaith o Ymgynghorwyr, Swyddogion Cyswllt neu Reolwyr Prosiectau sy'n gweithio o dan gontract naill ai yn y DU neu dramor ac sydd â phrofiad ym maes allforio.